

JONES, OWEN ('Manoethwy'; 1838 - 1866), awdur

Enw: Owen Jones
Ffugenw: Manoethwy
Dyddiad geni: 1838
Dyddiad marw: 1866
Rhiant: Ann Jones
Rhiant: John Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Ray Looker

Ganwyd 4 Mehefin 1838, mab John Owen o Tan-y-ffordd, plwyf Llangian, Sir Gaernarfon; brawd [John Jones](#) (Myrddin Fardd). Aeth yn blentyn i ysgol y Foel Gron, a phan oedd tua 15 oed anfonwyd ef i Goleg Athrawol Gogledd Cymru; yn ystod ei dair blynedd yno enillodd amryw wobrwyon am ei lafur dyfal. Penodwyd ef yn athro ysgol Llanfair Caereinion, yn Sir Drefaldwyn, ac yn y cyfnod hwnnw ymchwiliad yn hynafiaethau ei wlad a'i genedl; cyhoeddwyd llawer o'i gyfansoddiadau yn *Y Brython, Yr Haul, Golud yr Oes*, a'r *Cymro* dan y ffugenwau 'Cian,' 'Llenwyson,' 'Pedrog,' 'Maldwyn,' 'Manoethwy,' 'Mihangel,' 'Myfyr,' 'O,' ac 'O Wen'; ysgrifennai lawer i'r cyfnodolion Saesneg hefyd. Ar ôl bod yn Llanfair am bum mlynedd penderfynodd fynd i Goleg Iesu, Rhydychen, a pharatoi ar gyfer urddau eglwysig; ond cyn gwneud hynny aeth yn athro i'r ifanc, H. W. Kyffin, Bryn Tanad, ym mhlwyf Llanerfyl. Yno cafodd gyfle i ehangu ei wybodaeth hynafiaethol a chopio rhai llawysgrifau Cymraeg. Yn lle mynd i Rydychen aeth i Lundain i fyw ac yno y bu hyd nes colli ei iechyd. Dychwelodd i gymdogaeth Llanfair tua thair wythnos cyn ei farw yno ar 7 Chwefror 1866 yn 27 mlwydd oed. Claddwyd ef ar y degfed o'r mis ym mynwent Llanfaircaereinion. Y mae rhai o'i lawysgrifau yng nghasgliad Cwrt Mawr yn Ll.G.C.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, i, 639

J. Jones ('Myrddin Fardd') *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734093](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

